ADRODDIAD I'R:	Pwyllgor Trwyddedu
DYDDIAD:	12 Mehefin 2013
SWYDDOG ARWEINIOL:	Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd
SWYDDOG CYSWLLT:	Uwch Swyddog Trwyddedu trwyddedu@sirddinbych.gov.uk 01824 706451
TESTUN:	Gweithdrefnau i Aelodau eu dilyn wrth benderfynu ar geisiadau ac adnewyddu trwyddedau Cerbyd Hacni a Hurio Preifat.

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.2 Er mwyn i Aelodau ystyried a chymeradwyo'r gweithdrefnau ar gyfer Aelodau wrth iddyn nhw benderfynu ar geisiadau trwydded Cerbyd Hacni a Gyrwyr Cerbydau Hurio Preifat ac adolygu gyrwyr trwyddedig.

2. CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 O bryd i'w gilydd, bydd yn rhaid i Swyddogion cyfeirio ceisiadau neu ddalwyr trwydded presennol at Aelodau er ystyriaeth. Mae a wnelo'r adroddiad hwn â'r gweithdrefnau arfaethedig diwygiedig ar gyfer Aelodau wrth iddyn nhw ystyried materion o'r fath.

3. GWYBODAETH GEFNDIROL

3.1 Mae Swyddogion yn ei gweld hi'n briodol gofyn i Aelodau ystyried a chymeradwyo gweithdrefnau ar gyfer Aelodau wrth iddyn nhw benderfynu ar geisiadau cerbyd hacni a cheisiadau gyrwyr cerbydau hurio preifat ac adolygu dalwyr trwydded presennol.

3.2 Cafodd y gweithdrefnau presennol eu drafftio a'u cymeradwyo'n wreiddiol ar gyfer Trwyddedau Adloniant Cyhoeddus/Trwyddedau Eiddo. Mae Swyddogion o'r farn, oherwydd cynnydd yn nifer y ceisiadau ac adolygiadau sy'n cael eu dwyn gerbron yr Aelodau, y dylid llunio cyfres o weithdrefnau ar gyfer y diben hwn er mwyn hwyluso cyfarfodydd y Pwyllgor Trwyddedu. Mae copi o'r gweithdrefnau arfaethedig yn Atodiad A.

4. ARGYMHELLION

4.1 Argymhellir y dylai Aelodau gymeradwyo Gweithdrefnau'r Pwyllgor Trwyddedu ar gyfer penderfynu ar geisiadau cerbyd hacni a cheisiadau gyrwyr cerbydau hurio preifat ac adolygu dalwyr trwydded presennol, fel y nodir yn Atodiad A.